# Cadw golwg ar gynnydd



# Sut y byddwn ni'n cadw golwg ar gynnydd

Ni ellir darparu'r Cynllun Partneriaeth oni bai bod pob partner yn cydweithio i sicrhau y bydd Yr Wyddfa'n derbyn gofal yn y dyfodol.

Mae'r partneriaid wedi amlinellu'r broses ar gyfer cadw llygad ar waith y Bartneriaeth, ei fonitro a'i symud ymlaen.

Bydd gan y Cynllun Partneriaeth sawl ffordd o weithio ac o sicrhau atebolrwydd wrth ei ddarparu, fel y nodir isod:

- **Mae cynlluniau corfforaethol / busnes, cynlluniau lleol, cynlluniau gwaith a thargedau'r sefydliadau partner yn adlewyrchu ymrwymiadau'r Cynllun Partneriaeth.**
- **Adroddiad blynyddol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

Yn y pen draw, y partner arweiniol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri sy'n gyfrifol am y Cynllun. Mae'r Bartneriaeth wedi ystyried polisïau sy'n berthnasol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol wrth ddatblygu'r cynllun hwn. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) sy'n sefydlu egwyddor datblygu cynaliadwy ac sy'n dweud wrth sefydliadau sut i gyflawni eu dyletswyddau o dan y ddeddf. Un o brif elfennau hynny yw cydweithredu. Mae hynny'n golygu gweithio gyda sefydliadau eraill i helpu i bodloni ein hamcanion lles. Mae cyfranogi hefyd yn cael ei ystyried yn elfen bwysig. Mae hynny'n dangos pwysigrwydd cynnwys pobl sy'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal yr ydym yn ei gwasanaethu.

## Cylch Blynyddol y Cynllun Partneriaeth



# Dangosyddion llwyddiant

Fe hoffem ddod i ddeall a yw Cynllun Partneriaeth Yr Wyddfa’n gwireddu ei weledigaeth. Er mwyn sicrhau hynny, bydd y Bartneriaeth yn cadw llygad ar y dangosyddion allweddol canlynol ac yn adrodd yn ôl arnyn nhw’n flynyddol (neu'n llai rheolaidd pan fo data yn cael ei gasglu'n llai rheolaidd). Bydd y dangosyddion hyn yn rhoi cipolwg rheolaidd a bydd hynny’n cael ei hyrwyddo ar wefan y Bartneriaeth er mwyn i bobl allu gael cipolwg ar y cynnydd a wnaed.

| Gweledigaeth (canlyniad) | Dangosydd | Pwy fydd yn casglu’r wybodaeth? |
|---|---|---|
| *Drwy addysg a gwybodaeth mae ymweld â’r Wyddfa’n helpu i feithrin parch a dealltwriaeth at bobl, iaith, treftadaeth a diwylliant yr ardal.* | % o ymwelwyr yn nodi bod diwylliant / iaith / treftadaeth yr nodwedd yn eu hymweliad | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) |
| | % o ymwelwyr sy’n crybwyll mai’r amgylchedd naturiol yw’r rheswm am ymweld â’r Wyddfa a’i gwerthfawrogi | APCE |
| | Nifer y busnesau sy’n cymryd rhan weithgar yn y prosiect cyfraniadau gan ymwelwyr “Rhodd Eryri” | Arloesi Gwynedd Wledig (AGW) |
| | Mae amgylchedd y mynyddoedd yn cael ei ddehongli’n gyson ar llwyfannau a chyfryngau newydd (e.e paneli gwybodaeth / gwefannau) wedi’u datblygu a’u gosod / creu | Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| | % o ymwelwyr / rhanddeiliaid yn datgan bod llai o ysbwriel ar Yr Wyddfa nag ar fynyddoedd poblogaidd tebyg yn y DU | APCE,<br>Cymdeithas Eryri,<br>Real Three Peaks |
| | Nifer yr ymosodiad ar ddefaid gan gŵn yn ardal yr Wyddfa | Tîm Troseddau Gwledig<br>Heddlu Gogledd Cymru |
| *Pobl, busnesau a chymunedau’r ardal yn deall manteision twristiaeth yn well* | % o randdeiliaid sy’n cydnabod bod twristiaeth yn fuddiol iawn i’r ardal | APCE |

| Gweledigaeth (canlyniad) | Dangosydd | Pwy fydd yn casglu'r wybodaeth? |
|---|---|---|
| *Mae'r llwybrau ar Yr Wyddfa, yn cael eu cynnal yn dda ac yn hawdd i'w ddefnyddio, yn meithrin parch tuag at amgylchedd y mynydd ac yn lleihau creithiau erydiad.* | % yr ymwelwyr / pobl yr ardal sydd o'r farn fod llai o erydu ar lwybrau troed Yr Wyddfa nag ar fynyddoedd poblogaidd eraill | APCE |
| | % ymwelwyr / pobl yr ardal sydd o'r farn fod gan Yr Wyddfa llwybrau sy'n gweddu i'r tirlun nag ar fynyddoedd poblogaidd eraill. | APCE |
| | Nifer yr ymwelwyr sy'n defnyddio Lôn Gwyrfai (rhan o Gylchdaith Yr Wyddfa) | APCE |
| | Mae'r rhan o Gylchdaith Yr Wyddfa rhwng Peny- Pass a Nant Peris wedi'i gyflawni | APCE |
| | Mae rhan Lôn Gwynant o'r Gylchdaith Yr Wyddfa wedi ei chyflawni | APCE |
| | Nifer y digwyddiadau a drefniryn yr ardal | Cyngor Gwynedd ac APCE |
| *Mae'r Gymraeg yn gryf ym mhob elfen o fywyd ar y mynydd ac mae hynny'n arwain at barch at dreftadaeth, traddodiadau a diwylliant Cymru* | % o bobl sy'n siarad Cymraeg yn ardal Porthmadog a Chaernarfon | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn |
| | % ymwelwyr a gafodd rywfaint o gysylltiad â'r iaith / diwylliant Cymraeg yn ystod eu hymweliad | APCE |
| *Mae'r dechnoleg ddiweddaraf yn sicrhau bod pawb yn gallu cael yr wybodaeth ddiweddaraf.* | Yr ardal ddaearyddol lle mae cysylltiad wifi addas yn ardal Yr Wyddfa | APCE |
| *Mae gan Yr Wyddfa gyfleusterau glân, cyfoes a hygyrch ar gyfer ymwelwyr a gwasanaethau gwybodaeth rhagorol i dwristiaid.* | % ymwelwyr sydd o'r farn fod cyfelusterau o amgylch Yr Wyddfa'n addas | APCE |

| Gweledigaeth (canlyniad) | Dangosydd | Pwy fydd yn casglu'r wybodaeth? |
|---|---|---|
| *Seilwaith cludiant integredig wedi'i ariannu'n ddigonol, yn addas ar gyfer yr amgylchedd, yn ddibynadwy ac yn bodloni anghenion y bobl leol ac ymwelwyr.* | % o ddefnyddwyr sy'n canmol eu profiad cyffredinol o ddefnyddio'r bws Sherpa | Cyngor Gwynedd ac APCE |
| | % y busnesau a fyddai'n argymell eu cwsmeriaid i ddefnyddio'r bws Sherpa | Cyngor Gwynedd ac APCE |
| | % yr ymwelwyr / rhanddeiliaid sy'n canmol parcio a pharcio a theithio yn yr ardal fel bod yn wych neu'n ardderchog | Cyngor Gwynedd ac APCE |
| | Nifer y bobl sy'n defnyddio'r Bws Sherpa yn flynyddol | Cyngor Gwynedd |
| *Mwy o bobl yr ardal yn elwa ar, ac yn cymryd rhan mewn, gofalu am a mwynhau'r Wyddfa* | Nifer y wardeiniaid gwirfoddol, Wardeiniaid Ifanc a grwpiau o wirfoddolwyr Cymdeithas Eryri sy'n gwirfoddoli ar Yr Wyddfa | APCE a Chymdeithas Eryri |
| | Nifer a chanran y bobl sy'n byw yng ngogledd Cymru sy'n ymweld â'r Wyddfa | APCE |
| | % y bobl yn ardaloedd Caernarfon a Phorthmadog sy'n dweud bod 'cadw'n heini a gwneud pethau yn yr amgylchedd naturiol' yn bwysig | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn |
| *Bod Yr Wyddfa yn lle unigryw ac arbennig gydag economi sydd yn ffyniannus, integredig a chynaliadwy sydd o fudd i bawb* | Brand newydd ar gyfer cynnyrch lleol wedi'i lansio | APCE |
| | Amcan o % o gynnyrch lleol sy'n cael ei gynnig gan fusnesau'r ardal (llinell sylfaen) | APCE |
| | Nifer y digwyddiadau rhwydweithio a drefnir yn yr ardal | Grŵp Rheoli Cyrchfannau Gwynedd |
| | Lledaeniad drwy'r flwyddyn o'r amcangyfrif o'r boblogaeth fisol o ymwelwyr | STEAM |
| *Bod cymuned rheoli tir Yr Wyddfa yn gallu cael cefnogaeth a chyfleoedd i gynnal prosiectau cynaliadwy ac arloesol i gefnogi amgylcheddau a thirweddau iach a ffyniannus* | Strwythyr y fferm deuluol yn yr ardal | APCE |
| | Cyflwr safleoedd dynodedig | CNC |
| *Mae'r holl nodweddion cadwraethol yn cael eu cynnal mewn cyflwr da, yn awr a hyd y gellir rhagweld* | Staws cyflwr afonydd | CNC |

| Gweledigaeth (canlyniad) | Dangosydd | Pwy fydd yn casglu'r wybodaeth? |
|---|---|---|
| *Bod Yr Wyddfa'n ganolbwynt ar gyfer ymchwil a chasglu gwybodaeth* | Mae gwybodaeth ac ymchwil ynghylch ardal monitro yn Yr Wyddfa ar gael yn gyfleus mewn un man | CNC (ECN) |
| | Mae prospectws ymchwil ar Yr Wyddfa ar gael i brifysgolion ac i ymchwilwyr | CNC |
| *Bod mentrau llwyddiannus i liniaru, rheoli neu ddifa rhywogaethau ymledol yn helpu i leihau effeithiau drwg sylweddol rhywogaethau ymledol ar gynefinoedd a rhywogaethau bregus.* | Cynnal neu leihau arwynebedd y tir o dan Rhododendron yn ardal Glaslyn – Gwynant o'i gymharu â'r gwaelodlin a gofnodwyd yn 2007. | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac APCE |
| | Nifer y geifr ar lefel nad yw'n effeithio ar nodweddion cadwraeth a diogelwch y cyhoedd (ar y ffyrdd) | Partneriaeth Geifr Eryri |
| *Bod ymwelwyr yn mwynhau croeso gwirioneddol Gymreig sy'n eu hysbrydoli i ail ymweld. Eu bod yn teimlo eu bod wedi'u hysbrydoli ac wedi'u haddysgu ar ôl bod yng nghanol pobl, natur a threftadaeth yr ardal.* | % o bobl sy'n dweud eu bod wedi cael croeso yn yr ardal | APCE |
| | % yr ymwelwyr sy'n bwriadu dychwelyd i'r ardal | APCE |
| | % yr ymwelwyr sydd wedi ymweld o'r blaen | APCE |
| *Mae gwybodaeth gwir amser ynghylch yr ardal ar gael i bobl leol ac ymwelwyr er mwyn sicrhau eu bod yn dal i allu derbyn gwybodaeth a mwynhau'r mynydd yn ddiogel.* | % o ymwelwyr sydd wedi cynllunio eu hymweliad neu sydd wedi gallu cael gwybodaeth ynghylch yr ardal ymlaen llaw | Cyngor Gwynedd ac APCE |
| | % o ymwelwyr sy'n gwerthfawrogi'r wybodaeth y maen nhw wedi'i chael cyn eu hymweliad ac yn ystyried ei bod o ansawdd da, yn gyson ac yn hawdd cael gafael arni | Cyngor Gwynedd ac APCE |
| | Y nifer o wrthdrawiadau blynyddol a geir ar wefan newydd Yr Wyddfa | Cyngor Gwynedd |
| | Cymhareb nifer y rhai a achubwyd ar Yr Wyddfa o'i gymharu â nifer yr ymwelwyr | Cymdeithas Achub Mynydd Gogledd Cymru |
| *Mae trigolion ac ymwelwyr yn dod i fwynhau profiad o'r radd flaenaf yn nhirlun eiconig ac unigryw Yr Wyddfa yn yr hydref a'r gwanwyn, gan sicrhau bod pwysau a buddion yn cael eu cydbwyso trwy gydol y flwyddyn.* | % yr ymwelwyr sydd o'r farn fod eu profiadau ar Yr Wyddfa'n dda | APCE |
| | % y bobl leol sydd o'r farn fod eu profiadau ar Yr Wyddfa'n dda | APCE |
| | % newid mewn gwariant ymwelwyr | APCE |